INSC022

Cyfrannu at weithredu systemau glanhau ac arferion gwaith gorau

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer goruchwylwyr glanhau. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y systemau glanhau yn cyd-fynd â gweithdrefnau eich sefydliad.

Mae'n ymwneud â gwybod beth yw arferion gwaith gorau o ran glanhau a helpu i sefydlu systemau a dulliau sy'n cefnogi hyn. Mae hefyd yn ymwneud â'r meysydd hynny y mae gennych rwymedigaeth statudol ar eu cyfer fel iechyd a diogelwch a phenderfyniadau eraill ynglŷn â'r amgylchedd.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi'r ffactorau i'w hystyried wrth weithredu arferion gwaith gorau wrth lanhau
2. datblygu a sefydlu systemau er mwyn glanhau'n effeithiol mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gofynion cyfreithiol ac arferion gwaith gorau
3. cynghori staff am systemau a gweithdrefnau newydd y mae angen eu gweithredu
4. sicrhau bod systemau a gweithdrefnau'n cael eu monitro'n barhaus er mwyn nodi meysydd i'w gwella
5. gwerthuso'r systemau a'r prosesau sydd ar waith ac adolygu'r rhain yn rheolaidd
6. rhoi gwybod i'r aelod staff perthnasol am eich canfyddiadau
7. cymryd camau priodol ar weithredu'r arferion gwaith gorau wrth lanhau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y mathau o ffactorau a allai ddylanwadu ar weithredu systemau glanhau
2. y systemau perthnasol ar gyfer glanhau'n effeithiol
3. sut i roi gwybodaeth i staff am systemau a phrosesau y dylid eu defnyddio
4. pam mae'n bwysig sicrhau bod systemau a gweithdrefnau'n cael eu monitro
5. y gweithdrefnau ar gyfer nodi'r meysydd i'w gwella
6. i bwy y dylech roi gwybod am eich canfyddiadau
7. dulliau gwerthuso a gweithredu'r systemau a'r gweithdrefnau

INSC022

Cyfrannu at weithredu systemau glanhau ac arferion gwaith gorau

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTC302
Galwedigaethau perthnasol	Menter manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaeth; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Glanhau Elfennol
Cyfres/Set	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi
Geiriau Allweddol	cyfrannu, gweithredu, systemau, arferion, gweithdrefnau, glanhau, yr amgylchedd